**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees
Cadeirydd Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau

9 Ionawr 2026

Annwyl David

**Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)**

Diolch ichi am adroddiad Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) a gyhoeddwyd ar 23 Rhagfyr 2025. Gweler fy ymateb i gyfres o argymhellion yr adroddiad yn Atodiad 1.

Rwy'n darparu ymateb ysgrifenedig i adroddiadau Cyfnod 1 y Pwyllgor cyn y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar y Bil a'i ddogfennau ategol. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy broses y Senedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid er gwybodaeth.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

| Argymhelliad y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Argymhelliad 1.** Os yw'r Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil a'i fod yn symud ymlaen i gyfnod nesaf y broses ddeddfwriaethol, rydym yn argymell bod pob Rhan o'r Bil yn cael ei diwygio a'i gwella cyn iddo gael ei basio a'i ddeddfu. Mewn perthynas â Rhan 3, rhaid i'r Bil gael ei ddiwygio i fodloni ein hargymhelliad 11. | **Nodwyd** |
| **Argymhelliad 2.** Dylid dileu adran 4 o'r Bil. | **Nodwyd**<br><br>Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod system hysbysu ar gyfer y Llysoedd yng Nghymru a Lloegr yn briodol mewn perthynas â digwyddiad sbardun adalw A, rwy'n nodi bod y Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod cysondeb rhwng goblygiadau euogfarn droseddol yn Llysoedd Cymru a Lloegr, a Llysoedd yr Alban a Gogledd Iwerddon yn fwy pwysig na chreu gofynion hysbysu ar lysoedd pan fo hynny o fewn cymhwysedd y Senedd. Felly, byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn. |
| **Argymhelliad 3.** Dylid diwygio adran 5 o'r Bil fel ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a sefydlir yn unol ag adran 18, ddyroddi canllawiau ynghylch y materion y mae'n rhaid i'r pwyllgor hwnnw eu cadw mewn cof wrth ystyried a ddylid argymell gwneud Aelod yn destun pôl adalw. | **Derbyn**<br><br>Byddaf yn paratoi gwelliant i osod gofyniad ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i osod canllawiau adalw drafft gerbron y Senedd. Bydd yr Aelodau yn nodi bod hyn ychydig yn wahanol i'r argymhelliad y dylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad fod o dan rwymedigaeth i ddyroddi canllawiau adalw. Mae hyn oherwydd bod angen cymeradwyaeth y Senedd i ddyroddi canllawiau, ac felly nid yw dyletswydd i ddyroddi canllawiau yn un y gellir ei harfer yn gyfan gwbl o fewn pwerau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Felly, ystyrir bod dyletswydd i osod canllawiau drafft yn fwy priodol, gan ei bod yn cyflawni ysbryd yr argymhelliad drwy sicrhau bod y canllawiau drafft yn cael eu cyflwyno heb effeithio ar ddisgresiwn y Senedd i gymeradwyo (neu beidio) y canllawiau drafft. |
| **Argymhelliad 4.** Mae mwyafrif o'r Pwyllgor o'r farn y dylid diwygio'r Bil fel y gall y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ddyroddi canllawiau adalw cyn belled â bod mwyafrif syml o gyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd gan y Senedd o blaid y penderfyniad. | **Derbyn**<br><br>Fel y nodais yn glir yn sesiynau craffu Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, rwy'n hapus i gael fy arwain gan farn y Pwyllgor ynghylch beth ddylai'r trothwy ar gyfer cytuno ar ganllawiau adalw fod. Er bod y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cyd-fynd â'r trothwy o ddwy ran o dair i gymeradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog, rwy'n cydnabod nad yw'r Cod Ymddygiad a'r weithdrefn safonau ond yn gofyn |

| | |
|---|---|
| | am fwyafrif syml i'w diwygio. Felly, byddaf yn paratoi gwelliant a fyddai'n gostwng y trothwy ar gyfer cytuno ar y canllawiau i fwyafrif syml yn y Senedd. |
| **Argymhelliad 5.** O ystyried pwysigrwydd rheoliadau adran 11 i'r broses adalw, dylid diwygio'r Bil fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud y rheoliadau, yn hytrach na'u galluogi i wneud hynny fel y mae adran 11(1) wedi'i drafftio ar hyn o bryd. | **Gwrthod**<br><br>Rwy'n cydnabod pwysigrwydd y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 11 i weithredu'r system adalw. Fodd bynnag, rwy'n ystyried nad yw "caiff" yn adran 11(1) yn ddisgresiwn gwirioneddol oherwydd pe na bai unrhyw reoliadau yn cael eu gwneud, ni all y Ddeddf, os caiff ei phasio, byth gael ei gweithredu, a fyddai'n gyfystyr â llesteirio ewyllys y Senedd. Ar ben hynny, gan fod y rheoliadau'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, gall rhoi Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i "wneud" y rheoliadau greu tensiwn rhwng yr angen i Weinidogion gydymffurfio â'r ddyletswydd a disgresiwn y Senedd i gymeradwyo (neu beidio) y rheoliadau drafft a osodir ger ei bron. Felly, nid wyf yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol diwygio'r pŵer presennol i ddyletswydd. |
| **Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol a rhanddeiliaid etholiadol eraill ar ffurf y papur pleidleisio ar gyfer polau adalw a dylai fod yn destun profion defnyddwyr cyn gynted â phosibl, os caiff y Bil ei basio a'i ddeddfu. | **Derbyn**<br><br>Rwy'n cydnabod y dystiolaeth a ddaeth i law'r Pwyllgor mewn perthynas â ffurf y papur pleidleisio, a'i bwysigrwydd wrth gynnal pôl adalw yn effeithiol.<br><br>Yr unig elfen o'r papur pleidleisio sy'n cael ei rhagnodi gan y Bil yw'r cwestiwn a'r ymatebion posibl y mae rhaid eu defnyddio, bydd yr elfennau sy'n weddill o ran ffurf a chynnwys i'w penderfynu drwy reoliadau. Mae rheoliadau a wneir o dan adran 11 yn cynnwys y pŵer i ragnodi ffurf y papur pleidleisio, gan y byddai hyn yn dod o fewn cwmpas 11(1)(a) – 'darpariaeth ynghylch rhedeg pôl adalw'. Mae hyn yn cyfateb i'r pŵer yn adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, i wneud darpariaeth ynghylch cynnal etholiad i'r Senedd.<br><br>Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod y Gorchymyn Cynnal Etholiadau - yn Ffurf 12 - yn cynnwys templed papur pleidleisio enghreifftiol y mae rhaid i Swyddogion Canlyniadau ei ddefnyddio. Bydd rheoliadau a wneir o dan adran 11 o Fil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) yn yr un modd yn nodi'r templed papur pleidleisio y mae rhaid i Swyddogion Canlyniadau ei ddefnyddio mewn cysylltiad â pholau adalw. |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>Mae adran 11, is-adran 4 o Fil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) yn nodi: "Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol". Byddai Gweinidogion Cymru hefyd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ehangach ar y rheoliadau drafft, a fyddai'n cynnwys rhanddeiliaid etholiadol y tu hwnt i'r Comisiwn Etholiadol. Felly, mae rhwymedigaeth statudol eisoes ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ynghylch ffurf y Papur Pleidleisio. Fel rhan o'r ymgynghoriad, byddaf yn ystyried ymhellach - ochr yn ochr â'r Comisiwn Etholiadol – pa ddull sydd fwyaf priodol ar gyfer cynnal profion defnyddwyr.</td>
</tr>
<tr>
<td>Argymhelliad 7. Dylid diwygio’r Bil i ddatgan yn benodol y bydd polau adalw yn dod o fewn swyddogaethau statudol y Bwrdd Rheoli Etholiadol.</td>
<td>Derbyn<br><br>Rwy'n derbyn casgliadau'r Pwyllgor yn seiliedig ar y safbwyntiau a fynegodd y Bwrdd Rheoli Etholiadol wrtho, y dylai ei swyddogaethau fod yn gymwys i bolau adalw'r Senedd. Byddaf yn cyflwyno gwelliannau i'r Bil i roi effaith i hyn.</td>
</tr>
<tr>
<td>Argymhelliad 8. Rydym yn cytuno y dylai’r Bil wneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:
<ul>
<li>Pwyllgor Safonau Ymddygiad gorfodol,</li>
<li>galluogi aelodau lleyg i gael eu penodi i bwyllgorau’r Senedd sy’n ystyried materion sy’n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau o’r Senedd;</li>
</ul>
<ul>
<li>gwahardd y canlynol rhag cael eu penodi’n aelodau lleyg:
<ul>
<li>aelodau etholedig presennol a chyn-aelodau etholedig o holl seneddau a deddfwrfeydd y DU,</li>
<li>aelodau o Dŷ’r Arglwyddi,</li>
<li>aelodau etholedig presennol a chyn-aelodau etholedig cynghorau cymuned, sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru,</li>
<li>comisiynwyr heddlu a throseddu presennol a chyn-gomisiynwyr ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru, a hefyd</li>
<li>personau sy’n dal y swyddi anghymhwyso yn ail golofn y tabl yn</li>
</ul></li>
</ul></td>
<td>Derbyn<br><br>Nodaf farn y Pwyllgor bod elfennau o'r darpariaethau mewn cysylltiad â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn rhy ragnodol ac felly y dylai'r Senedd gael y disgresiwn i benderfynu ar fanylion ei threfniadau ei hun. Nodaf hefyd fod rhyngddibyniaethau â Chasgliad 9 yn adroddiad y Pwyllgor, o ran pa faterion a ddylai fod yn ofynnol drwy Reolau Sefydlog.<br><br>Bydd fy swyddogion yn ystyried ymhellach ac yn paratoi gwelliannau i gael gwared ar elfennau o benodoldeb ar wyneb y Bil lle bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, byddaf yn dymuno rhoi ystyriaeth bellach i rychwant y meini prawf anghymhwyso ar gyfer aelodau lleyg. Yn benodol, a oes angen anghymhwyso cyn-aelodau o Lywodraeth Leol a'r rhai sydd wedi dal yn flaenorol unrhyw un o'r swyddi a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006. Er fy mod yn deall ystyriaeth y Pwyllgor o'r pwynt hwn, nid yw swyddi o'r fath o reidrwydd yn swyddi gwleidyddol a byddwn am sicrhau nad yw unrhyw feini prawf anghymhwyso o'r fath yn rhy gyfyngol ac yn lleihau'n sylweddol o bosibl y gronfa o ddarpar aelodau lleyg.</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Rhan 2 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006 (ac eithrio'r swyddi barnwrol);<br><br>ac o ganlyniad, nid ydym yn ystyried bod angen unrhyw ddarpariaeth arall sydd yn adran 18 ar hyn o bryd, a dylid diwygio'r Bil yn unol â hynny. | |
| **Argymhelliad 9.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y bobl ganlynol wedi'u hanghymhwyso rhag cael eu penodi'n Gomisiynydd Safonau y Senedd:<br><br>• aelodau etholedig presennol a chyn-aelodau etholedig o holl seneddau a deddfwrfeydd y DU,<br><br>• aelodau o Dŷ'r Arglwyddi,<br><br>• aelodau etholedig presennol a chyn-aelodau etholedig cynghorau cymuned, sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru,<br><br>• comisiynwyr heddlu a throseddu presennol a chyn-gomisiynwyr ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru, a hefyd<br><br>• personau eraill sy'n dal y swyddi anghymhwyso yn ail golofn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006 (ac eithrio'r swyddi barnwrol). | **Derbyn**<br><br>Bydd fy swyddogion yn paratoi gwelliannau mewn ymateb i'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, credaf y dylai unrhyw feini prawf anghymhwyso ar gyfer rôl Comisiynydd Safonau'r Senedd efelychu'r meini prawf hynny ar gyfer aelodau lleyg, cyn belled ag y bo modd. Felly, fel y nodir mewn ymateb i Argymhelliad 8, hoffwn roi ystyriaeth bellach i rychwant y meini prawf anghymhwyso mewn perthynas â chyn-aelodau o Lywodraeth Leol a'r rhai sydd wedi dal yn flaenorol unrhyw un o'r swyddi a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006 er mwyn sicrhau nad yw unrhyw feini prawf anghymhwyso o'r fath yn rhy gyfyngol ac yn lleihau'n sylweddol o bosibl y gronfa o ddarpar Gomisiynwyr. |
| **Argymhelliad 10.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddiwygio *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* i gynnwys Comisiynydd Safonau'r Senedd yn y rhestr o gyrff cyhoeddus a restrir yn Atodlen 6 i'r Mesur. Nodwn y gellid cyflawni gwelliant o'r fath i Atodlen 6 naill ai drwy gynnwys darpariaeth ar wyneb y Bil neu drwy gyflwyno gorchymyn o dan adran 35 o'r Mesur. Yn yr un modd, dylai'r Cwnsler Cyffredinol hefyd gynnwys Comisiynydd Safonau'r Senedd mewn set o reoliadau Safonau Cymraeg perthnasol. Nodwn y gellir gwneud hyn naill ai drwy gynnwys darpariaeth ar wyneb y Bil neu drwy reoliadau a wneir drwy ddefnyddio pwerau o dan y Mesur. Os na chaiff y newidiadau hyn eu cynnwys ar wyneb y Bil, dylid cyflwyno'r offerynnau statudol priodol cyn gynted â phosibl. | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Derbyniaf gasgliad y Pwyllgor y dylai'r Comisiynydd Safonau fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg, ac yn amodol ar farn y Comisiynydd byddaf yn mynd ati i baratoi gwelliannau ar gyfer Cyfnod 2 mewn ymateb i'r argymhelliad. |
| **Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru:<br><br>• ddrafftio darpariaethau manwl ar gyfer y drosedd a gynigir, i'w cynnwys ar wyneb y Bil, sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau o ffaith anwir neu gamarweiniol cyn neu yn ystod etholiad at | **Nodwyd**<br><br>Rwyf wedi bod yn glir drwy gydol Cyfnod 1 bod creu trosedd newydd yn fater newydd a chymhleth ac nad yw'n rhywbeth y dylid ei frysio. Fel y mae'r Pwyllgor yn ei nodi, wrth ddatblygu unrhyw drosedd, mae'n hanfodol bod asesiad llawn o'r |

| | |
|---|---|
| ddibenion effeithio ar ethol unrhyw ymgeisydd;<br><br>• ymgynghori ar y darpariaethau hynny, gan gynnwys ymgysylltu’n gynhwysfawr â’r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a chyhoeddi manylion yr ymatebion ymgynghori hynny;<br><br>• cynnal a chyhoeddi asesiadau o effaith ar gyfiawnder a hawliau dynol; ac wedi hynny<br><br>• cyflwyno’r gwelliannau perthnasol yng nghyfnod 2 a fyddai’n gosod manylion llawn y drosedd ar wyneb y Bil.<br><br>Os na ellir gwneud y newidiadau hyn mewn pryd ar gyfer trafodion Cyfnod 2, neu os ystyrir bod y gwelliannau a gyflwynwyd yng nghyfnod 2 yn annigonol ac felly ni chânt eu cefnogi, mae mwyafrif y Pwyllgor yn argymell y dylid dileu adran 22 o’r Bil er mwyn caniatáu i waith pellach ar y mater gael ei wneud mewn deddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol. Mae Sioned Williams yn credu y gellir diwygio adran 22 ymhellach i ddiffinio cwmpas y pŵer ymhellach. | effeithiau ar y system gyfiawnder, yr ystyriaethau o ran hawliau dynol, a'r gyfraith etholiadol ehangach yn cael ei gynnal, ochr yn ochr ag ymgynghoriad cynhwysfawr. Byddaf yn ystyried dichonoldeb a goblygiadau ymgymryd â'r gwaith hwnnw mewn pryd i fewnosod trosedd yn y Bil fel gwelliant yng Nghyfnod 2.<br><br>Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad am ei waith ar y pwnc hwn, ac am ei argymhellion a nodir yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025 ac a nodwyd gan y Senedd ym mis Ebrill 2025. Roedd yn bwysig bod gwaith y llywodraeth yn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ogystal â thrafodaethau a chasgliadau'r Pwyllgor hwnnw.<br><br>Yng ngoleuni etholiad y Senedd yn 2026, cynlluniwyd y ddarpariaeth yn adran 22(3) i sicrhau y byddai'r gwaith i sefydlu'r drosedd yn cael ei barhau gan Lywodraeth nesaf Cymru.<br><br>Nodaf nad yw'r Pwyllgor wedi gallu dod i gonsensws ynghylch y ffordd briodol o weithredu os nad yw'r Llywodraeth yn credu ei bod yn bosibl neu'n briodol mewnosod trosedd o'r fath yng Nghyfnod 2. |